Y Senedd

# Ymgynghoriad - Adolygiad o’r Rheolau a’r Canllawiau ar ddefnyddio Adnoddau'r Senedd

2025

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â Rheol 8 o'r Cod Ymddygiad.

www.senedd.cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 3**

Cefndir ........ 3

**2. Eglurhad o'r geiriad neu'r ystyr ........ 4**

Cefndir ........ 4

Ystyriaethau ........ 4

Cynigion ........ 5

**3. Sut i gyflwyno ymateb ........ 6**

Hysbysiad Preifatrwydd ........ 6

# 1. Cyflwyniad

**1.** I baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, disgwylir diweddariad i'r Rheolau. Nod y diweddariad yw defnyddio profiad y blynyddoedd diwethaf i roi eglurder. Mae hefyd yn adlewyrchu newidiadau yn y fframwaith rheoleiddio.

**2.** Mae'r Rheolau a Chanllawiau presennol ar gael yma: **Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau’r Senedd**. Mae gweddill y ddogfen hon a'r atodiad yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig a gwahoddir sylwadau ar y cynigion.

## Cefndir

**3.** Mae'r fframwaith Safonau ar gyfer Aelodau o’r Senedd yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o’r Senedd (‘y Cod’) a’r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau’r Senedd (‘y Rheolau’). Mae 'Rheol 8 o’r Cod’ yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â rheolau ar ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd, a wneir, o bryd i’w gilydd, gan Brif Swyddog Cyfrifyddu (“y Swyddog Cyfrifyddu”) y Comisiwn. Prif swyddog cyfrifyddu'r Senedd yw'r Prif Weithredwr a Chlerc.

**4.** Rôl prif swyddog cyfrifyddu sefydliad sector cyhoeddus yw ennyn ffydd y cyhoedd yn ei ddefnydd o adnoddau cyhoeddus. Mae'n gyfrifol am reoleidd-dra a phriodoldeb gwariant, gwerthusiad cadarn o ddulliau gwahanol ar gyfer cyflawni amcanion polisi, sicrhau gwerth am arian, rheoli risg, a rhoi cyfrif cywir am y defnydd o adnoddau. Er mwyn cefnogi'r dyletswyddau hyn, mae ar y swyddog cyfrifyddu angen trefn sicrwydd effeithiol.

**5.** Cyhoeddwyd "Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd" am y tro cyntaf cyn etholiadau 2016 gyda chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu ar y pryd. Maent wedi cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd, er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch y ffyrdd y gellir defnyddio adnoddau'r Comisiwn. Mae'r Rheolau bellach yn cynnwys canllawiau i Aelodau a'u staff, er mwyn eu gwneud yn gliriach ac yn haws i'w defnyddio. Bwriedir i'r ddogfen fod o gymorth i Aelodau drwy nodi'r rheolau sy'n berthnasol i'w defnydd o adnoddau a ariennir gan y Comisiwn, ac yn ddefnyddiol i'r Swyddog Cyfrifyddu drwy nodi'r rheolau sy'n gymwys, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion i gael sicrwydd priodol ar waith ynghylch y ffordd y mae adnoddau'r Comisiwn, boed yn unol ag adran 27(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (darparu eiddo, staff a gwasanaethau i'r Senedd) neu yn unol â'r Penderfyniad, yn cael eu defnyddio a rhoi cyfrif amdanynt.

# 2. Eglurhad o'r geiriad neu'r ystyr

## Cefndir

**6.** Daeth y fersiwn gyfredol o'r Rheolau a'r Canllawiau i rym yn dilyn proses ymgynghori helaeth. Maent yn cael eu cyflwyno ar ffurf i roi canllawiau ochr yn ochr â phob rheol. Y bwriad ar yr achlysur hwn yw peidio â gwneud newidiadau helaeth i'r Rheolau, yn hytrach, bydd y diweddariad yn parhau â'r broses o addasu'r geiriad er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder, neu i adlewyrchu newidiadau ers i'r Rheolau gael eu diwygio ddiwethaf. Mae newidiadau o ran egluro/cyflwyniadol wedi'u gwneud ac fe'u nodir yn yr atodiad ynghlwm gan ddefnyddio newidiadau wedi'u tracio.

**7.** Mewn rhai achosion, mae profiad yn awgrymu y gellid gwneud ystyr neu fwriad y rheolau neu'r canllawiau yn gliriach. Mae'r newidiadau sy'n cael eu hysgogi gan yr ystyriaethau hyn yn cael eu crynhoi 'ar gipolwg' yn yr adran isod, gyda manylion y newid arfaethedig wedi'u nodi yn yr atodiad ynghlwm.

**8.** Mae rhai meysydd lle bydd cyfeiriadau at ddogfennau eraill yn cael ei ddiweddaru. Er enghraifft, mae angen newidiadau i gael gwared ar y cyfeiriad at Ranbarthau o ganlyniad i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 oherwydd, yn y dyfodol, ni fydd Rhanbarthau at ddibenion y Senedd, dim ond Etholaethau.

## Ystyriaethau

**9.** Yn yr adran gyflwyniadol 'Statws y Rheolau a'r Canllawiau' bydd addasiadau bach yn cael eu gwneud i egluro cyd-destun y Rheolau a'r Canllawiau. Ym mharagraff 4, bydd y geiriad sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau at "Gomisiynydd Safonau y Senedd i ymchwilio" yn cael ei addasu i "...Comisiynydd Safonau'r Senedd y mae'n rhaid iddo drin yr ohebiaeth fel cwyn", sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth yn fwy cywir.

**10.** Yn yr un modd, cynigir dau eglurhad yn yr adran Dehongli. Bydd cyfrifoldebau'r Senedd yn cael eu hadlewyrchu yn y disgrifiad presennol o ddyletswyddau'r Aelodau, ochr yn ochr â busnes y Senedd a busnes yr etholaeth. Er bod 'Gweithgareddau yn ymwneud â'r cyfryngau' eisoes wedi'u bwriadu i gynnwys pob math o gyfryngau, er mwyn sicrhau eglurder, cynigir cynnwys cyfeiriad penodol at gyfryngau cymdeithasol, a dileu'r cyfeiriad hen ffasiwn at ystad y Senedd.

**11.** Mae'r canllawiau i Reol 1 yn ceisio egluro'r cyfyngiadau ar ddefnydd Aelodau o adnoddau'r Senedd, gan gynnwys nodyn atgoffa i fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol. Mae brawddeg yn cael ei hychwanegu i'r perwyl hwn.

**12.** Mae Rheol 2 yn adlewyrchu'r gofynion ar Gomisiwn y Senedd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac fel corff cyhoeddus. Cynigir addasu'r geiriad i egluro ac adlewyrchu'n well yr egwyddorion y mae swyddogaethau Comisiwn y Senedd i'w harfer yn unol â hwy.

**13.** Rheol 5 - Cynigir gwneud yn glir y gall y gweithdrefnau ariannol y cyfeirir atynt gael eu cyfleu i'r Aelodau naill ai gan Gomisiwn y Senedd neu gan y Clerc, sef prif swyddog cyfrifyddu Comisiwn y Senedd. Yn gyffredinol, tîm Cymorth Busnes yr Aelodau sy'n gweithredu'r gweithdrefnau hyn ac maent ar gael ar y Fewnrwyd a thrwy ddiweddariadau eraill, yn electronig ac wyneb yn wyneb.

**14.** Rheol 6 – cynigir dileu brawddeg gyntaf y rheol, gan fod yn rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'w rôl a'r cyfrifoldebau sy'n deillio ohoni, waeth beth fo cynnwys y Rheolau hyn. Cynigir cynnwys nodyn atgoffa cyffredinol yn y canllawiau i Reol 1.

**15.** Mae Rheol 10 yn nodi ei bod yn ofynnol i Aelod ad-dalu'r Comisiwn yn brydlon pan ofynnir iddo wneud hynny, os canfyddir bod Aelod wedi torri'r Rheol hon. Awgrymwyd y dylid symud hyn i Reol 1 i fod yn berthnasol ar draws y Rheolau. Byddai hyn yn gyson â'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor Safonau wrth ystyried materion sy'n codi o'u hadroddiadau ar Adalw a Thwyll.

**16.** Mae Rheol 11 yn adlewyrchu na chaniateir defnyddio Adnoddau ar gyfer gweithrediadau'r cyfryngau mewn perthynas ag unrhyw ymgyrch etholiadol ar gyfer swyddi cyhoeddus, a'r cynnig yw addasu'r geiriad i adlewyrchu nad yw hyn yn gyfyngedig i ymgyrchu sy'n digwydd yng Nghymru.

**17.** Mae'r canllawiau i Reol 12 yn atgoffa Aelodau bod Digwyddiadau a Noddir gan Aelodau yn rhan bwysig o ymgysylltu. Cynigir ychwanegu eglurder ei bod yn hanfodol i Aelod sy'n noddi fod yn bresennol neu gael ei gynrychioli mewn digwyddiad y mae'n ei noddi.

**18.** Rheol 13 – cynigir ychwanegu at y canllawiau i egluro mai tîm Diogelwch Comisiwn y Senedd sy'n gyfrifol am weinyddu'r polisi fetio diogelwch.

## Cynigion

**19.** Mae'r newidiadau arfaethedig hyn wedi'u nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

# 3. Sut i gyflwyno ymateb

**20.** Rydym yn croesawu eich barn ar y cynigion hyn, i helpu i lywio penderfyniadau terfynol ar newidiadau i'r Rheolau a Chanllawiau ar ddefnyddio Adnoddau'r Senedd ar gyfer y Seithfed Senedd. Os hoffech gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gallwch wneud hynny drwy anfon eich ymatebion at y canlynol:

Post: Clerc Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

E-bost: AOConsultation@senedd.cymru

**21.** Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae croeso ichi gyfrannu yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, neu'r ddwy, a gofynnwn i sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg ymateb yn unol â'u rhwymedigaethau eu hunain.

**22.** Ymdrinnir â phob ymateb yn unol â'n Polisi preifatrwydd ac nid yw ymatebion yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn, er y gallai ymatebion neu safbwyntiau cryno gael eu cynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddir ar yr adolygiad blynyddol. A wnewch chi gadarnhau a fyddai'n well gennych i'ch enw beidio â chael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch sylwadau yn yr adroddiad.

**23.** Er mwyn caniatáu amser i ystyried ymatebion a gwneud penderfyniadau terfynol, byddem yn croesawu pe gellid anfon yr holl ymatebion atom erbyn 5pm fan bellaf, 02/11/25. Ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

**24.** Os oes angen cymorth arnoch wrth baratoi eich ymateb, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth gan ddefnyddio'r manylion uchod.

## Hysbysiad Preifatrwydd

**25.** Comisiwn y Senedd yw'r rheolydd data ar gyfer y wybodaeth rydych yn ei rhoi, a bydd yn sicrhau y caiff ei diogelu a'i defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Mae ein polisi preifatrwydd cyffredinol ar gael o'n gwefan yn: https://senedd.cymru/cymorth/preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd/. Fodd bynnag, mae'r

adran hon yn disgrifio sut a pham mae'r Comisiwn yn defnyddio data personol at ddibenion penodol yr ymgynghoriad hwn.

**Pam rydym yn casglu gwybodaeth, a'r hyn rydym yn ei wneud â'r wybodaeth**

**26.** Bydd yr hyn a gyflwynir gennych yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ar newidiadau arfaethedig i Reolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd gan y Swyddog Cyfrifyddu. Bydd y Swyddog Cyfrifyddu a'r ysgrifenyddiaeth sy'n gweinyddu'r ymgynghoriad hwn yn gweld cyflwyniadau yn eu cyfanrwydd. Efallai y caiff rhywfaint o wybodaeth bersonol ei rhannu â gwahanol dimau o fewn Comisiwn y Senedd iddynt ystyried unrhyw newidiadau a sut y dylid gweinyddu unrhyw newidiadau. Efallai hefyd y bydd angen rhannu ymatebion, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gyda'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, ac aelodau'r Bwrdd hwnnw.

**27.** Efallai y byddwn yn cyhoeddi darnau o'r hyn a gyflwynwyd gennych o fewn dogfennau a gynhyrchir yn dilyn yr ymgynghoriad, gan gynnwys ar ein gwefan. Gallai hyn gynnwys eich gwybodaeth bersonol. Bydd unrhyw wybodaeth a gyflwynir sy'n cael ei chynnwys mewn dogfennau a gyhoeddir yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd am gyfnod amhenodol. Unwaith y bydd y wybodaeth yn y parth cyhoeddus, gall trydydd partïon, fel y cyfryngau neu ddarlledwyr, ailddefnyddio'r rhannau cyhoeddedig hyn o gyfraniadau at eu dibenion eu hunain. Rhowch wybod i ni os nad ydych am i'r hyn a gyflwynir gennych gael ei gyhoeddi.

**28.** Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu rhywfaint o'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych. Dim ond os yw'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hyn.